

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, nos Lun, 11 Mehefin am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

1. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Ystyriodd aelodau'r Pwyllgor Amwynderau ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Gŵyl Rhuthun, wedi'i gyflwyno ar y ffurflen briodol. Roedd y cais am £1,000 tuag at gostau cynnal yr ŵyl.

PENDERFYNWYD: rhoi £1,000 o gymorth ariannol i Bwyllgor Gŵyl Rhuthun.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Gavin Harris.

3. ETHOL CADEIRYDD

Cynigiwyd y Cyngorwyr Menna Jones i gadeirio'r cyfarfod am y noson, a rhoi'r eitem hon ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd gyda hyn.

PENDERFYNWYD: ethol y Cyngorwyr Menna Jones yn gadeirydd ar y cyfarfod heno, a rhoi'r eitem hon ar agenda'r cyfarfod nesaf i ethol Cadeirydd am y flwyddyn nesaf.

4. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

5. CYLCH GORCHWYL DRAFFT

Bu'r aelodau'n ystyried y cylch gorchwyl drafft a gyflwynwyd.

PENDERFYNWYD: mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Amwynderau.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 yn gywir.

7. MATERION YN CODI

Adroddwyd bod arwyddion Ffordd Glasdir bellach wedi'u gosod yn eu lle.

8. DYDDIAU PARCIO AM DDIM

Hysbysodd y Clerc yr aelodau nad oedd wedi derbyn pris am ddau ddiwrnod parcio am ddim ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: holi'r swyddogion perthnasol eto.

9. PRIS GOSOD PLANHIGION YN Y PLANWYR

Esboniodd y Clerc na chafwyd pris hyd yma, ond y byddai'n holi am hyn eto. Dywedodd bod bwriad i greu llwybr troed ar draws maes parcio Heol y Parc, a fyddai lleihau nifer y blociau concrid yno.

PENDERFYNWYD: nodi'r wybodaeth a holi am y planhigion eto.

10. SEFYDLU GRŴP TREFI TACLUS

Trafodwyd bod angen rhaglen waith ar gyfer y Grŵp a phenderfynu ar amllder cyfarfod.

Penderfynwyd trafod hyn yn y cyfarfod nesaf pan fyddai'r Cyngorwyr Gavin Harris, a oedd wedi cynnig cydlynu hyn, yn bresennol. Cynigiwyd hefyd y byddai'n gyfle da i lansio'r dref fel tref di-blastig. Dywedodd y Clerc bod Cyngorwyr Sir Llanbedr Dyffryn Clwyd a Llangynhafal yn chwilio am wirfoddolwyr i'w gynorthwyo gyda hel chwyn o feysydd parcio'r dref ddydd Sadwrn, 16 Mehefin. Y bwriad oedd cyfarfod ym maes parcio Stryd y Farchnad am 10am, a chynigiodd nifer o'r aelodau ddod i gynorthwyo. Gwnaed cais i anfon cwyn, ar ran y Pwyllgor, i'r Cyngor Sir ynghylch safon y torri glaswellt yn y dref a thorri'r glaswellt yn y fynwent, gan adael y glaswellt wedi'i dorri ar ôl.

PENDERFYNWYD: anfon llythyr i'r Cyngor Sir ynghylch safon y torri glaswellt yn y dref ac yn y fynwent.

11. DYDDIAD BEIRNIADU'R ARDDANGOSFEYDD BLODAU

Cynigiodd y Maer a'r Cynghorwyr Menna Jones ac Anne Roberts fod ar y panel beirniadu, a phenderfynu ar y dyddiad yn dilyn cyfarfod y Cyngor.

PENDERFYNWYD: *penderfyny ar y dyddiad yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 18 Mehefin.*

12. BIN WRTH FELIN YSGUBORIAU

Eglurodd y Clerc bod y bin baw ci o eiddo Cyngor Tref Rhuthun wedi'i ddifrodi a'i symud o'r safle. Holodd a oedd yr aelodau'n fodlon cyfrannu oddeutu £350 am fin newydd aml-bwrpas yn y lleoliad hwn.

PENDERFYNWYD: *bod yr aelodau'n fodlon cyfrannu at fin newydd aml-bwrpas, yn amodol y byddai'r Cyngor Sir yn gyfrifol am y bin newydd.*

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 9 Gorffennaf 2018 am 7:30pm.*